# CYNGOR CYMUNED LLANDYGAI
# LLANDYGAI COMMUNITY COUNCIL


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorLlandygai@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol (Cyfarfod Rhithiol) o'r Cyngor a gynhaliwyd ar
**Nos Iau 17 Mawrth 2022 am 18.30**
*Oherwydd Covid-19 cynhaliwyd y cyfarfod drwy ddefnyddio Zoom*

**PRESENNOL:**
Y Cynghorydd Dafydd Owen
Y Cynghorydd Dafydd Roberts
Y Cynghorydd Lowri Jones
Y Cynghorydd Mair Leverett
Y Cynghorydd Sian Beidas
Y Cynghorydd Mary Hayes
Y Cynghorydd David H Roberts
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Iwan Hywel
Y Cynghorydd Angharad Williams

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod rhithiol gan y Cadeirydd, Cyng. Huw Jones.
   **Ymddiheuriadau** gan y Cyngr. Richard Fraser-Williams, Mair Owen Pierce a Gabrielle Wyn

2. **Cofnodion**
   **Penderfynwyd:** Derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2021.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 **Problemau gôr-yrru yn Mynydd Llandygai ac wrth Ysgol Bodfeurig –** Trafodwyd y mater yma o dan rhif 9 ar yr agenda.

3.2 **Llecyn Tir, Bont Tŵr –** Y Clerc wedi ymateb i gynnig Breedon, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi eto, dal ddim ymateb.

3.3 **Mynediad i Lôn Las Ogwen ger Garej Pandy –** Gwaith wedi ei gomisiynu i edrych ar wella'r arwyddion a'r marciau ffordd i'r fynedfa. Ar y gweill.

3.4 **Llwybr Rhif 3** – Y Clerc wedi holi'r swyddog llwybrau newydd, Rob Jones – disgwyl diweddariad ar y mater. Y Clerc i holi eto.

3.5 **Arhosfan bws ger Pant yr Ardd** –cais am linellau melyn eraill yr ochr arall ac wedi holi pam nad ydynt yn defnyddio cwmni lleol i gwblhau'r gwaith. Y Clerc i holi eto. Angen trafod gyda'r Rheolwr Traffig.

3.6 **Drychau traffig -** Y Clerc wedi holi Cyngor Gwynedd os oes modd gael drych traffig ar pen lôn Llwybr Main o gyfeiriad Lôn y Grug, dim ymateb hyd yn hyn. Y Clerc i holi unwaith eto.

3.7 **Carreg filltir hanesyddol** - Y Clerc wedi cadw'r darn yn swyddfa Partneriaeth Ogwen ac wedi danfon ebost at Nest Thomas yn yr adran amgueddfeydd. Wedi cael caniatâd yr Adran Priffyrdd i'w chadw, felly mae angen trefnu ei danfon at Nest ym

Mangor.

**3.8 Lôn y Wern, Tregarth** – Adroddodd y Cyng. Dafydd Roberts fod rhywfaint o'r gwaith wedi cael ei gwblhau, ond fod angen sylw brys i weddill y ffordd, yn enwedig rhwng Cororion a Tai Teilwriaid. Y Clerc i holi eto.

**3.9 Fferm Dinas** – y Clerc wedi holi'r adran Gynllunio am y fynedfa newydd – dim ymateb hyd yn hyn. Angen holi eto.

**3.10 Diffyg ymateb Cyngor Gwynedd –** Y Clerc i gasglu tystiolaeth, i gynnwys tystiolaeth gan y Cynghroau eraill, a'i danfon ymlaen at Cyngor Gwynedd.

**3.11 Llythyr at Bwrdd Adra –** Pawb yn hapus gyda'r llythyr sydd wedi ei ddrafftio. Angen ei anfon at Brifweithredwr Adra ac at y Bwrdd.

**4. Gohebiaeth**

Pawb wedi cael copi o'r rhestr 'Crynodeb o ohebiaeth Mawrth 2022'

**Cyflwynwyd**: Un Llais Cymru – Aelodaeth 2022-23 – Penderfynwyd adenwyddu'r aelodaeth.

**Cyflwynwyd:** Dyffryn Gwyrdd – Holiadur Costau Byw – Pawb i gwblhau'r holiadur yn unigol, ac i rannu'r holiadur gyda cysylltiadau o fewn y dyffryn.

**Cyflwynwyd**: Zurich – Yswiriant Blynyddol – Penderfynwyd adenwyddu'r yswiriant gyda Zurich eto eleni.

**Cyflwynwyd:** Cais am rhodd – Ogwen 360 – Penderfynwyd rhoid rhodd o £250 tuag at yr achos.

**Cyflwynwyd:** Cais am rhodd – Clwb Ieuenctid Mynydd Llandygai – Penderfynwyd rhoid rhodd o £350 tuag at yr achos.

**Cyflwynwyd:** Cais am rhodd – Theatr Bara Caws – Penderfynwyd rhoi rhodd o £100 tuag at yr achos.

**Cyflwynwyd:** Ymddiswyddiad y Cyng. Richard Fraser Williams – Roedd y Cyngor yn hynod o drist i glywed am ei ymddiswyddiad, mae'r Cynghorydd wedi bod yn aelod hynod o werthfawr i'r Cyngor. Y Clerc i lunio llythyr i ddiolch am ei holl waith caled.

**5. Gwaith y Mis**

**Bont ar llwybr ger Chwarel Goch** – Nodwyd y Cyng. Dafydd Owen fod Mrs Janet Williams, Chwarel Goch wedi gorfod glanhau o dan bont ar y llwybr ar ei thir – Y Clerc i cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau i weld beth yw cyfrifoledebau'r Cyngor.

**Canllaw Lon Las Ogwen ger Garej Pandy** – Y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd fod angen canllaw newydd.

**Ysbwriel Lon Dinas** – Nodwyd y Cyng. Iwan Hywel fod fwy o ysbwriel wedi gael ei adael wrth Lon Dinas, y Cyng. Dafydd Owen i ymweld a'r safle ac i dynnu lluniau a'i danfon ymlaen at y Clerc.

**Graffiti ar hyd Lon Las** – Adroddwyd am y graffiti sydd ar hyd y Lon Las unwaith eto.

**6. Prydles Ganolfan Tregarth**

Nodwyd fod y Clerc wedi danfon yr addasiadau perthnasol at y Swyddog Eiddo yn Cyngor Gwynedd, ond heb dderbyn unrhyw ymateb eto. Nodwyd bydd y Cyng. Dafydd Owen yn ymweld a'r adran cyfreithriol i holi am yswiriant yr adeilad a'r costau cyfreithriol.

**7. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr**

**Canolfan Tregarth –** adroddwyd am y gwaith diweddar yn y Ganolfan, ac fod y Ganolfan bellach wedi gael ei gofrestru gyda'r Post Brenhinol.

**Ysgol Tregarth –** Nodwyd fod y Cyng. Dafydd Owen wedi mynychu'r cyfarfod llywodraethwyr yr ysgol.
**Ysgol Bodfeurig –** Nodwyd fod y Cyng. Mary Hayes wedi mynychu'r cyfarfod llywodraethwyr yr ysgol, a cafwyd golwg ar y cwriciwlwm newydd.
**Canolfan Cefnfaes** – Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Iwan Hywel am y datblygiadau yn Nghanolfan Cefnfaes. Nodwyd fod yr arian wedi cyrraedd a gyfer cwblhau'r gwaith cychwynnol, a bod penseiri wedi gael ei penodi, y gwaith i gychwyn wythnos nesaf.
**Ysgol Dyffryn Ogwen** – Nodwyd fod yr ysgol wedi derbyn adroddiad gwych gan arolygwyr Estyn yn ddiweddar – Y Clerc i ddanfon llythyr i'w longyfarch ar yr adroddiad.
**Cyfarfod Arfon a Dwyfor Un Llais Cymru** – Nodwyd fod y Cadeirydd wedi mynychu'r cyfarfod hwn, a nodwyd eu bod wedi gael cyflwyniad diddorol iawn gan Cymorth Cynllunio Cymru a Thrafnidiaeth dros Cymru.

**8. Adroddiad Ariannol, Rheoli Risg a Gweinyddu**
**8.1** Adroddwyd beth oedd y ffigyrau yn y banc ar ddiwedd mis Chwefror. Derbyniwyd yr adroddiad.

**9. Gor-yrru Mynydd Llandygai**
Derbyniwyd copiau o'r Arolwg Goleuo a'r Adroddiad Dichonoldeb. Cafodd y cyngor ei syfrdannu i weld yr astudiaeth ar dylunio llwybr troed, gan ein bod bob amser wedi gofyn am dwmpathau cyflymder. Er hyn, mae'r Cyngor yn hynod o ddiolchgar i Gyngor Gwynedd am gwblhau'r arolwg yma, a bydd y Cyngor yn croesawu llwybr troed. Y broblem yw fod hwn yn brosiect hir dymor, ac fod angen newidiadau ar frys. Mae diogelwch y plant lleol mewn perygl, ac mae angen gwneud gwelliannau tymor byr. Y Cyng. Iwan Hywel a'r Clerc i lunio ymateb, a'i danfon at y swyddog a Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd a danfon copi at Sian Gwenllian AS.

**10. Taliadau**
Dim taliadau.

**11. Penderfyniadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C18/0767/25/LL** | Coed Wern, Glasinfryn<br>Safle arfaethedig ar gyfer 40 llety, adeilad derbynfa, a chreu 2 nodweddion dŵr. Ynghyd a ffurfio ffyrdd mynediad cysylltiedig a meysydd parcio, tirweddu a gwaith cysylltiedig eraill.<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C22/0034/16/DT** | Bryngeraint, Santes Ann<br>Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i gefn ac ochr yr eiddo ynghyd a chodi estyniad un llawr blaen i greu lolfa haul<br>**Penderfyniad:** Caniatau rhan a gwrthod rhan. |

**12. Ceisiadau Cynllunio**

| | |
|---|---|
| **C22/0175/16/DT** | 8 Ar Afon, Mynydd Llandygai<br>Estyniadau un llawr<br>**Penderfyniad**: Cefnogi |
| **C22/0154/16/DT** | 30 Tal y Cae, Tregarth<br>Cais ar gyfer codi estyniad un llawr i gefn yr eiddo<br>**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad |
| **C22/0238/16/LL** | Fferm Tan Y Foel Lôn Rallt, Pentir<br>Codi tŷ ar gyfer gweithiwr amaethyddol.<br>**Penderfyniad**: Pawb i ddanfon sylwadau i'r Clerc |
| **C22/0173/16/DT** | Gyfing, Sling<br>Codi ystafell gardd<br>**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad |
| **C22/0156/16/CR** | Managers Office, Porth Penrhyn Estate Office, Porth Penrhyn<br>Gosod 2 giat metal traddodiadol o fewn dau lleoliad ar wal ystad Penrhyn er mwyn creu mynediad cyhoeddus i'r Llwybr Arfodir Cymru<br>**Penderfyniad**: Cefnogi |
| **C22/0134/16/LL** | Plot C1, Parc Bryn Cegin, Llandegai<br>Datblygiad cyfleuster tanwydd Bio - nwy naturiol wedi ei gywasgu ar gyfer cerbydau gan gynnwys pympiau tanwydd, cwmpownd cyfarpar offer, creu mynedfeydd newydd, tirlunio a datblygiad cysylltiedig.<br>**Penderfyniad**: Dim gwrthwynebiad. |

**13. Unrhyw fater brys arall**

**Etholiad mis Mai -** Mae'r pecynnau enwebu wedi cyrraedd y swyddfa, bawb alw heibio'r swyddfa i gasglu ffurflen os ydynt am sefyll yn yr etholiad. Y Clerc i ddanfon copi electronig i bawb.